



Canolfan Ymchwil Technoleg Gofal Iechyd CEDAR

Bwletin Chwarterol

Mehefin 2023, Rhifyn 3

Mae Cedar wedi ymrwmo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

YN Y RHIFYN HWN

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau
diweddar gan y
tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch
pa brosiectau
sydd wedi camu
ymlaen yn
CEDAR y
chwarter hwn

Arddangosfa Ffrwd Gwaith

Dysgwch am un
o'r meysydd
arbenigedd
niferus o fewn
CEDAR

Sbotolau Staff

Clywch gan Ann,
a wnaeth
ymddeol o
CEDAR ym mis
Ebrill 2023

Newyddion CEDAR

- Mae Cedar wedi cael ei ailfrandio fel [CEDAR](#) (Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd).
- Hoffai CEDAR ddymuno ymddeoliad hapus iawn i'n Gweinyddwraig Busnes, Ann, ar ôl bron i 12 mlynedd o weithio yn CEDAR a 28 mlynedd yn y GIG. Mae Ann yn edrych ymlaen at dreulio mwy o amser gyda'i theulu.
- Mae'r astudiaeth [PROVISION](#), a arweiniwyd gan Dr Laura Knight yn CEDAR, bellach yn dechrau recriwtio cleifion. Mae adolygiad naratif amgaeedig ar ddelweddu PROM ar gael [YMA](#).
- Mae ehangiad swyddfa CEDAR o fewn [Medicentre Caerdydd](#) bellach wedi'i gwblhau. Rydym bellach wedi ein lleoli yn unedau 1, 3, a 5. Galwch heibio i ddweud helo!
- Fe wnaeth CEDAR mynychu a chyflwyno yng [Nghyfarfod Haf 2023 o Gynhadledd MPCE Cymru Gyfan](#), a gynhaliwyd gan BIP CAF.
- Mae CEDAR wedi cwblhau gwerthusiad o [raglenni Byw'n Dda a Pharatoi'n Dda \(orthopaedeg\)](#) y Model Adsefydlu BIP CAF.
- Mae tri aelod o'n tîm wedi cwblhau hyfforddiant Llythrennedd Carbon BIP CAF yn ddiweddar.
- Mynychodd Megan, ein harweinydd economegydd iechyd, Hacathon [Cydweithrediad Modelu Cymru](#), gan weithio gyda chydweithwyr o bob rhan o Gymru i adeiladu casgliad o adnoddau ar gyfer unrhyw un sy'n edrych ar y newidiadau posibl mewn gofal iechyd oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio.



UCHAFBWyNTIAU'R PROSIECT

Endosgopi Capsiwl Colon

Mae'r [Rhaglen Endosgopi Genedlaethol \(NEP\)](#) yn cydweithio â 4 bwrdd iechyd yng Nghymru i brofi gwasanaeth endosgopi capsawl colon (CCE) newydd. Mae'r CCE yn weithdrefn ddi-boen, lle mae claf yn llyncu pilsen sy'n cynnwys dau gamera bach i archwilio'r coluddyn mawr. Mae ymchwil yn awgrymu y gall fod mor gywir â cholonosgopiâu optegol ar gyfer rhai cyflyrau. Y nod yw lleihau rhestrau aros a achosir gan alw mawr am wasanaethau endosgopi. Byddwn yn cynnal arolwg cleifion a chyfweiliadau staff i gasglu adborth gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Bydd canlyniadau'r peilot yn cael eu cyhoeddi ar wefan [Comisiwn Bevan](#) ym mis Mehefin.

VAP-X

Mae CEDAR yn gweithredu fel canolfan rheoli treialon ar gyfer y treial [VAP-X](#) (Ventilator Aspiration with PneuX), mewn cydweithrediad â'r prif ymchwilydd, yr Athro Matt Wise. Mae cleifion sy'n ddifrifol wael ar gymorth anadlu mewn perygl o niwmonia oherwydd hylifau yn mynd i mewn i'w hysgyfaint. Mae'r tiwb anadlu PneuX wedi'i gynllunio i atal hyn trwy ddefnyddio cwff sy'n llenwi ag aer yn awtomatig i selio'r llwybr anadlu. Rydym yn cynnal hap-dreial dichonoldeb rheoledig gyda 50 o gleifion yn yr uned gofal dwys yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Bydd hanner yn derbyn y tiwb PneuX tra bydd yr hanner arall yn derbyn tiwb safonol. Byddwn yn casglu samplau i asesu a yw hylif stumog a bacteria wedi mynd i mewn i'r ysgyfaint a monitro achosion o niwmonia. Nod yr astudiaeth hon yw asesu dichonoldeb a gwella'r cynllun ar gyfer treialon yn y dyfodol.



OECD PaRIS

Mae CEDAR ar hyn o bryd yn cefnogi menter [PaRIS OECD 2023](#) (Arolygon Dangosyddion a Adroddir gan Gleifion), a arweinir gan y [Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru](#) ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys 20 o wledydd a'i nod yw helpu i ddeall canlyniadau a phrofiadau pobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig. Cwblhawyd arolwg peilot y llynedd ac mae'r brif astudiaeth bellach wedi dechrau, gyda 200 o bractisau meddygon teulu ledled Cymru wedi'u gwahodd i gymryd rhan, ac arolygon cleifion i ddilyn. Mae CEDAR wedi bod yn ymwneud â strategaethau samplu, cyfieithu a phrofi fersiwn Cymraeg, a dadansoddi data. Bydd allbynnau terfynol yn galluogi llunwyr polisi i ddeall anghenion practisau meddygon teulu.

Arddangosfa Ffrwd Gwaith – Synthesis Tystiolaeth

Mae Prif Ymchwilydd, Dr Susan O'Connell, yn trafod gwaith synthesis tystiolaeth CEDAR:

Mae gan CEDAR gyfoeth o brofiad mewn synthesis tystiolaeth, gan gynnwys cynnal adolygiadau systematig ac asesu technoleg iechyd (HTA). Gan weithio mewn partneriaeth â'r Uned Arbenigol Tystiolaeth Adolygu ([SURE](#)) ym Mhrifysgol Caerdydd, mae ein tîm yn hynod fedrus wrth ddiffinio cwestiynau ymchwil, datblygu cwrpas, chwilio llenyddiaeth, arfarnu beirniadol, dehongli data a meta-ddadansoddi. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithredu fel Grŵp Asesu Allanol (EAG) ar gyfer y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ([NICE](#)), gan gynnal gwerthusiadau tystiolaeth o dechnolegau meddygol i lywio canllawiau NICE. Rydym hefyd yn cynnal adolygiadau cyflym i gefnogi'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ([WHSSC](#)) i gynhyrchu polisiâu comisiynu, ochr yn ochr â chynnal adolygiadau tystiolaeth annibynnol i gefnogi ystod o brosiectau.



SBOTOLAU STAFF

Rydym yn siarad ag Ann Morris, Cyn-Weinyddwraig Busnes CEDAR, am ei 28 mlynedd yn y GIG:



"Dechreuais weithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar 12^{fed} Rhagfyr 1994 mewn Peirianeg Glinigol yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd, fel swyddog clerigol. Roedd y swydd yn rhan amser a oedd yn gyfleus i mi oherwydd roedd gen i ddau o blant bach yn yr ysgol ar y pryd.

Roeddwn i mor gyffrous am weithio i'r GIG, roeddwn i'n teimlo fy mod wedi cyflawni rhywbeth arbennig. Roedd y tîm yn groesawgar iawn. Roedd yr adran yn brysur iawn ond roedd wastad amser am hwyll! Roedd teimlad o gyfeillgarwch go iawn yn yr ysbyty cyfan, o'r ymgynghorwyr i'r porthorion.

Ar ôl 4 blynedd cefais ddyrchafiad i fod yn Rheolwr Swyddfa, gan weithio yng Nghanolfan Quadrant yn Llanisien ac yna Fieldway, lle bûm yn gweithio tan 19eg Medi 2011. Yna des i weithio i CEDAR yn Medicentre Caerdydd fel Gweinyddwraig, felly rydw i wedi gweithio yn CEDAR ers bron i 12 mlynedd. Rwyf wedi mwynhau gweithio a gwylio CEDAR yn tyfu.

Ar ôl 28 mlynedd yn y GIG penderfynais ei bod yn amser ymddeol. Dydd Gwener 19eg Mai oedd fy niwrnod gwaith olaf yn CEDAR a dwi'n edrych ymlaen yn fawr at ysgrifennu pennod olaf "Llyfr fy Mywyd". Mae gen i gymaint o lefydd i ymweld â nhw a ffrindiau i'w gweld fy mod yn gwybod mai dyma'r amser iawn i mi."